Cofnodion Cyfarfod
Cyngor Ieuenctid Ceredigion
Siambr y Cyngor, Penmorfa
Dydd Gwener 20 Hydref 2023

(10:00 – 14.00)

Yn bresennol:

Ysgol Bro Pedr & Urdd Ceredigion (Cadeirydd CI 2022-23)
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Penglais & Hwb Ieuenctid Goats
Ysgol Penglais & Hwb Ieuenctid Goats
Coleg Ceredigion & Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
Coleg Ceredigion & Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig & Urdd Ceredigion
AyyC & Clwb Ieuenctid Talybont
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Uwchradd Aberteifi

Yn Bresennol hefyd: Gwion Bowen (Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu), Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion) a'r Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau).

Siaradwyr: Tesni Woodfall (Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad – Cyngor Sir Ceredigion) a Iestyn Morgan (Swyddog Ymgysylltu a Phrosesu Gwasanaethau Etholiad, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd – Cyngor Sir Ceredigion)

Ymddiheuriadau: (Ysgol Gyfun Penweddig), (Ysgol Penglais), (Ysgol Penglais), (Ysgol Henry Richard), (Ysgol Henry Richard), (Ysgol Bro Pedr), (Ysgol Bro Pedr), (Ysgol Gyfun Aberaeron), (Ysgol Bro Teifi) ac Elen James (Prif Swyddog Addysg, Cyngor Sir Ceredigion)

Agenda y Cyfarfod:

Agenda Cyngor Ieuenctid 20.10.23.do

COFNODION	
1	**Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau**
	Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod trwy estyn croeso i'r Cyngor Ieuenctid i'r Siambr. Yr aelodaeth eleni fydd 9fed Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Cyflwynodd GB ac LE eu hunain a'u rolau. Nodwyd yr ymddiheuriadau. Hysbyswyd y Cyngor Ieuenctid o'r trefniadau ymarferol gan GB • Siaradwyr • Dyfeisiau cyfieithu • Allanfeydd Tân • Toiledau • Cinio a lluniaeth Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu hunain a pha ysgolion / sefydliadau y maent yn eu cynrychioli. Eglurodd GB y bydd cofrestr yn mynd o gwmpas yn ystod y cyfarfod i gasglu cyfeiriadau e-bost ar gyfer gohebiaeth, a gofynnodd a gallai'r aelodau nodi unrhyw ofynion dietegol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Bydd ffurflenni aelodaeth hefyd yn cael eu dosbarthu yn ystod y cyfarfod a/neu drwy e-bost maes o law. Eglurodd GB y bydd Sianel Hwb MS Teams yn cael ei chreu yn dilyn cyfarfod heddiw i rannu gwybodaeth.
2	**Beth yw Cyngor Ieuenctid ni a strwythur Cyngor Ieuenctid 2023/24?**
	Fe wnaeth GB gyflwyno i'r Cyngor Ieuenctid, gan ddarparu gwybodaeth cefndirol ac eglurodd strwythur presennol y Cyngor Ieuenctid. Cyfarfod 1af Cyngor Ieuenctid 2023.24.ppt
3	**Dweud eich dweud ar Bremiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor**
	Rhannodd GB wybodaeth am yr ymgynghoriad sydd wedi lansio yn gofyn am farn ar ba lefel o bremiymau treth gyngor y dylid ei godi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, codir tâl ychwanegol o 25% ar ben y lefel arferol o dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn y sir.

Yng Ngheredigion, mae 33,856 o eiddo yn gyfrifol am dalu treth y cyngor. O'r rhain, mae 2,289 (6.8%) naill ai'n ail gartrefi neu'n eiddo gwag hirdymor. Mae'r rhan fwyaf o'r ail gartrefi wedi'u lleoli mewn ardaloedd arfordirol, gyda eiddo gwag hirdymor fel arfer yn cael eu gweld mewn ardaloedd mwy trefol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion am glywed wrth y trigolion am ddyfodol lefel premiymau'r dreth gyngor, gan gynnwys pa effaith y gallai unrhyw newid ei gael ar gymunedau lleol, yr iaith Gymraeg, twristiaeth a'r economi.

Treth Tai Gwag a ailgartrefu.pptx

Poster Second Home and Empty Property.p

Rhannodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu barn ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, a oedd yn cynnwys dylanwad ar yr economi, prisiau tai a'r tai sydd ar gael i bobl ifanc (rhentu / prynu). Rhoddwyd manylion i'r bobl ifanc er mwyn gallu ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad.

4 Gweithdai Is-grwpiau yr Amgylchedd ac Urddas Mislif

Eglurodd GB fod dau is-grŵp i'r Cyngor Ieuenctid. Gall aelodau ddewis un i gymryd rhan ynddo. Rhannodd y Cyngor Ieuenctid er mwyn cynnal dau weithdy is-grŵp.

Cyflwynodd GB a LE wybodaeth i'r ddau is-grŵp a'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor Ieuenctid diwethaf.

Is-Grwp Amgylchedd	Is-Grwp Urddas Mislif
Participants: 1. 2. 3. 4. 5. 6. 7. 8.	Participants: 1. 2. 3. 4. 5. 6. 7. 8. 9. 10.

Is-Grwp Amgylchedd

	Yn ystod gweithdy Is-grŵp yr Amgylchedd ac fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth, rhannodd GB flaenoriaethau'r Is-grŵp ar gyfer y flwyddyn 2022 - 2023. Ar ôl cydnabod yr hyn a weithiodd yn dda yn 2022 - 2023 a'r hyn y gallai fod angen ei wneud i symud gwaith yr Is-grŵp yn ei flaen yn 2023 - 2024; penderfynodd yr aelodau flaenoriaethu prosiect amgylcheddol gwerth £500 ar gyfer 2023 - 2024. Darparodd GB dasg fer i aelodau Is-grŵp yr Amgylchedd drafod a rhannu syniadau am brosiect amgylcheddol priodol i'w flaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd yr Is-Grŵp yn cadarnhau pa brosiect i'w ddilyn yn ein cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd ar 02.02.24. Blaenoriaethau Is-grwp Amgylchedd ; Is-grwp amgylchedd 20.10.23 notes.docx <u>Is-Grwp Urddas Mislif</u> Rhannodd LE wybodaeth ynghylch beth oedd blaenoriaethau'r Cyngor Ieuenctid diwethaf o ran urddas mislif. Rhannodd LE gopi o'u cynllun gweithredu, a bydd aelodau newydd yr is-grŵp yn cael cyfle i sefydlu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer 2023-24. CI Period Dignity Sub Group Notes 21.10.22; Period Dignity Sub-Group Action Pla; Taflen Hyfforddiant Urddas Mislif Staff 20; Taflen Gweminar Urddas Mislif Rhieni~; 1. Community Leaflets CYM.pdf; 2. Pick and Mix Leaflets CYM.pdf Urddas Mislif yng Ngheredigion - Cyngor Sir Ceredigion Rhannwyd rhai syniadau ynghylch yr hyn yr hoffai'r grŵp ganolbwyntio arno ar gyfer eleni, a bydd y syniadau hyn yn cael eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Rhannwyd samplau cynnyrch mislif i ddeall pa eitemau oedd yn well gan bobl ifanc.
5	**Gair gan y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
	Croesawodd y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Cyngor Ieuenctid newydd ar gyfer 2023-24. Cynhaliodd Cynghorydd Wyn Thomas drafodaeth gyda'r Cyngor Ieuenctid ac eglurodd ei rôl o fewn y Cabinet. Eglurodd y Cynghorydd Wyn Thomas ei rôl o fewn y Cabinet a thynnodd sylw at rôl bwysig y Cyngor Ieuenctid yng Ngheredigion fel llwyfan i bobl ifanc leisio'u barn. Gan ychwanegu bod y Cyngor Ieuenctid hefyd yn gyfle i aelodau gynrychioli barn a safbwyntiau pobl ifanc eraill sy'n byw yng Ngheredigion.

	Eglurodd y Cynghorydd Wyn Thomas ei fod yn edrych ymlaen at y rhaglen flynyddol newydd ac at gael y cyfle i wrando ac ymgysylltu â holl aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn ystod y cyfarfodydd sydd i ddod.
6	**Ethol Cadeirydd Cyngor Ieuenctid 2023/24**
	Cyflwynodd GB y cyfle i ddod yn Gadeirydd y Cyngor Ieuenctid ar gyfer 2023-24. Eglurodd GB y rôl, a'i gyfrifoldebau. Etholiad Cadeirydd Cyngor Ieuenctid 202 Soniodd IM (Cadeirydd 2022-23) am ei brofiad fel Cadeirydd a'r sgiliau y mae wedi'u datblygu o fod yn y rôl. Anogodd IM aelodau newydd i ystyried y cyfle. Diolchodd GB i IM am ei ymrwymiad a'i ymdrechion fel Cadeirydd ar gyfer 2022-23. Eglurodd GB y broses etholiadol a diolchodd i bawb a roddodd eu henwau ymlaen i ddod yn Gadeirydd (JP; YUA, AD; YBT, RA; Penweddig, IH; Penweddig, CD; Penweddig, TD; Penglais). Cynhaliwyd pleidlais a chyhoeddwyd taw Rosa Waby, (Blwyddyn 12) Ysgol Gyfun Penweddig sydd wedi cael ei hethol gan y Cyngor Ieuenctid yn Gadeirydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion am 2023-24. Llongyfarchwyd RW ar ei phenodiad.
7	**Ymgynghoriad ar Gynllun Cydraddoldeb Drafft Ceredigion 2024-28**
	Ymunodd Tesni Woodfall (Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad – Cyngor Sir Ceredigion) â chyfarfod y Cyngor Ieuenctid i gyflwyno ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Drafft Ceredigion 2024-28. Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi set o amcanion a chynllun sy'n disgrifio'r hyn y byddant yn ei wneud i leihau anghydraddoldeb a mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu. Gofynnwyd i bobl am eu barn am gydraddoldeb yn ardal Dyfed-Powys yn ystod yr haf. Helpodd yr atebion a ddaeth i law i ni lunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft pwysig hwn i wneud bywyd yn well ar gyfer y rheiny sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion. Mae amcanion cydraddoldeb drafft y Cyngor yn cynnwys: • bod yn gyflogwr cyfle cyfartal. • meithrin cysylltiadau da a mynd i'r afael â rhagfarn. • sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad, parch a mynediad at wasanaethau. • darparu addysg deg a chynhwysol. Cymerodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid ran yn yr ymgynghoriad a mewn trafodaeth grŵp.

Canlyniadau
Cyflwyniad Cynllun dr

https://www.menti.com/aldpqm7eipoc

8 Wythnos Democratiaeth Leol Ceredigion

I gydnabod Wythnos Democratiaeth Leol 2023 eleni, cyflwynodd Iestyn Morgan (Swyddog Ymgysylltu a Phrosesu Gwasanaethau Etholiadol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth – Cyngor Sir Ceredigion) i'r Cyngor Ieuenctid i dynnu sylw at y broses wleidyddol yng Ngheredigion, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc.

Cynhelir Wythnos Democratiaeth Leol ar lefel genedlaethol a lleol a'i nod yw annog y cyhoedd, yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, a phobl anabl, i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio democratiaeth leol fel pob person yn cael 'cyfle cyfartal i ddylanwadu ar newid…gan sicrhau bod polisïau a gwasanaethau lleol yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau cymunedau lleol.'

Cyflwyniad
Pleidleisio yn 16 ac 17

9 Cyflwyniad Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (SIDU) ac Ethol Aelod Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig ar gyfer Ceredigion

Cyflwynodd GB y cyfle i'r Cyngor Ieuenctid ethol Aelod Seneddol Ieuenctid nesaf Ceredigion ar gyfer Senedd Ieuenctid y DU. Aled Lewis (Blwyddyn 13, Ysgol Gyfun Aberaeron) yw ASI SIDU presennol Ceredigion a bydd yn gorffen ei dymor ddiwedd Tachwedd 2023.

	 Cylfwyniad ASI - MYP Presentation 2023.ppt Eglurodd GB fod cyfle nawr i bobl ifanc ddatgan a ydynt yn dymuno enwebu eu hunain ar gyfer etholiad Senedd y DU. Bydd gan bobl ifanc sy'n dymuno gwneud hynny 30 eiliad i 'gyflwyno' pam yr hoffent gymryd y rôl i weddill y Cyngor Ieuenctid. Bydd y Cyngor Ieuenctid wedyn yn pleidleisio, drwy osod eu papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio ar flaen y Siambr. Mae gan bob person ifanc un bleidlais. Bydd y pleidleisiau yn cael eu cyfri yn ystod amser cinio a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar ôl cinio. Cyflwynodd chwech o bobl ifanc eu henwau a chawsant eu llongyfarch am wneud hynny, gan nad yw'n dasg hawdd siarad o flaen cynifer o bobl eraill yn enwedig mewn lleoliad fel y Siambr. Rhoddodd pob person ifanc esboniad byr i gefnogi eu cais. Y rhai a redodd am etholiad (JP; YUA, AD; YBT, IH; Penweddig, CD; Penweddig, BLl; YBT, CJ; CC). Cynhaliwyd y balot, a chyhoeddwyd mai'r ymgeisydd llwyddiannus, a fydd yn Aelod Senedd Ieuenctid y DU dros Geredigion eleni yw: Aeron Dafydd (Ysgol Bro Teifi). Llongyfarchwyd AD, a chydnabuwyd eraill am gynnig eu hunain.
10	**Rhannu Gwybodaeth a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
	Galwodd GB am unrhyw fusnes arall gan aelodau. Dim i adrodd. Rhannodd GB gopïau o ffurflen aelodaeth y gwasanaeth. Rhannodd GB wybodaeth a gofynnodd am ddiddordeb mewn trefnu ymweliad â'r Senedd yng Nghaerdydd fel rhan o raglen y Cyngor Ieuenctid eleni, sy'n debygol o fod yn ystod Hanner Tymor Chwefror 2024. Dangosodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid ddiddordeb yn y weithgaredd hon. Rhannodd GB wybodaeth a deunyddiau ynghylch Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Rhannodd GB wybodaeth am y cyfarfod nesaf a fydd yn cael ei gynnal eto yn y Siambr ar 02/02/2024. Dyddiadau cyfarfodydd 2023-24: Cyfarfod 1; 20/10/23 Cyfarfod 2; 02/02/24 Cyfarfod 3; 20/03/24 Diwedd tymor, Digwyddiad Pawb a'i Farn; 12/07/23

	 Taflen Cyngor Ieuenctid 2023.24 (Cy Eglurodd GB y gallai'r is-grwpiau gyfarfod cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid, a fydd fwy na thebyg dros MS Teams. Gall is-grwpiau gyfarfod yn fwy rheolaidd i sicrhau bod gwaith prosiect / ymgyrchu yn gallu datblygu. Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn ar gyfer yr is-grwpiau maes o law. Gofynnodd GB i bob aelod arwyddo allan ar eu ffordd allan o Benmorfa ac aros am eu cludiant yn y dderbynfa. Diolchodd GB i'r grŵp am gyfarfod cyntaf cynhyrchiol a chadarnhaol o'r Cyngor Ieuenctid 2023-24. *Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu cyfleu i'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.*